Dyddiad: Dydd Gwener 14 Gorffennaf 2000

Amser: 10.00am i 12.40pm

Lleoliad: Canolfan Hamdden, Castell Newydd Emlyn, Sir Gaerfyrddin

## Rhaglen Gwariant Cyfalaf Dwr Cymru (2000 - 2005)

Ffurfiwyd y Rhaglen Gyfalaf er mwyn i'r Cwmni allu cydymffurfio gyda'i ddyletswyddau cyfreithiol, cynnal ei asedau a lefelau ei wasanaeth a pherfformiad yn ogystal â darparu ar gyfer unrhyw alw newydd dros y pum mlynedd nesaf. Mae cyfanswm y rhaglen waith yn £1.1 biliwn gyda £200m wedi ei glustnodi i'w wario yn Rhanbarth y De Orllewin.

Pedair prif elfen sydd i'r Rhaglen Gyfalaf, yn y bôn:

### Y Rhaglen Ansawdd

- Ymdrin â'r gwelliannau ansawdd newydd sy'n ofynnol dan Ddeddfwriaeth Ewrop a Phrydain, gyda chytundeb Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, yr Arolygiaeth Dwr Yfed ac, yn achos Dwr Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

### Cyfalaf Cynhaliaeth

- mae'r Rhaglen Gynhaliaeth yn ymdrin â chynlluniau blaenoriaeth sy'n sicrhau bod perfformiad cyfredol o ran lefelau cydymffurfio a lefelau gwasanaeth yn cael eu cynnal.

### Datblygiadau Newydd a Chynnydd

- darparu asedau newydd i hwyluso datblygiadau newydd a chynnydd mewn galwadau gan gwsmeriaid cyfredol

### Gwell Lefelau Gwasanaeth

- buddsoddi er mwyn gwella ymhellach lefelau'r gwasanaeth i gwsmeriaid, yn arbennig o ran problemau carthffosiaeth sy'n codi dro ar ôl tro

Mae'r rhaglen yn cynnwys cannoedd o gynlluniau, a'r rheini'n amrywio yn eu gwerth o ychydig filoedd o bunnoedd i ddegau o filiynau o bunnoedd. Mae Blwyddyn 1 a rhan o Flwyddyn 2 y rhaglen yn cynnwys cynlluniau sydd unai eisoes ar eu safle (e.e Caerdydd, Nash, Afan, y Rhyl a Felindre) neu lle byddwn yn dechrau ar y safle'n fuan (e.e Penmaenmawr, y Fflint, Harlech ac elfen sylweddol o'r rhaglen CSO).